

Annwyl Weinidog,

Diolch am y cyfle hwn i rannu sylwadau ar Ddogfen Ymgynghori'r Papur Gwyn (Bil y Gymraeg).

Yn sicr, mae llawer i'w groesawu yn y ddogfen; yn benodol:

Yr ymrwymiad i roi hyrwyddo iaith yng nghalon yr agenda, a'r argymhelliad i greu corff hyd-braich gyda throsolwg strategol. Cam i'r cyfeiriad iawn yn ogystal fyddai ymestyn pwerau i'r sector breifat, a phennu dyletswyddau cynllunio ieithyddol.

Os yw'r camau a amlinellir yn y ddogfen am gyfrannu'n ystyrlon at y nod o greu miliwn o siaradwyr y Gymraeg erbyn 2050, byddwn yn pwysleisio ei bod yn hanfodol sicrhau cyllid digonol; ymrwymiad ar draws holl Adrannau'r Llywodraeth; cydlynu gofalus o safbwynt polisi, camau gweithredu a chynlluniau; yn ogystal â sicrhau arbenigedd o safon uchel o fewn Adran y Gymraeg a'r Comisiwn arfaethedig.

O fanylu ymhellach ar yr ymateb, byddwn yn ategu'r prif bwyntiau a godir gan y mudiad Dyfodol i'r iaith, sef:

- Nad yw sefydlu un corff (y 'Comisiwn'), fyddai'n uno'r gwaith o hyrwyddo a rheoleiddio, yn ymateb delfrydol i'r anghenion. Mae'r ddwy elfen yn gofyn am ymatebion tra gwahanol, ac o fwrw ymlaen â sefydlu un corff, rhaid sicrhau na fydd unrhyw lastwreiddio ar y gallu i orfodi cydymffurfiaeth.
- Er mwyn sicrhau llais annibynol cryf, byddwn yn dadlau'n gryf mai'r Rheolaethwyr, yn hytrach na'r Llywodraeth, ddylai fod â'r grym i osod safonau a chyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer
- Bydd angen rôl gydlynol gryf i'r Comisiwn, a hynny er mwyn cynghori'r Llywodraeth, a sicrhau bod gwahanol brosiectau a mentrau'n atgyfnerthu ei gilydd
- Mae codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg yn allweddol i lwyddiant y gwaith, a bydd angen ymchwil ysgolheigaidd manwl ar sut i ledaenu'r neges ymysg y gwahanol sectorau a'r cyhoedd
- Croesawn y bwriad i ddiwygio'r safonau, ond yn y cyfamser, rhaid sicrhau nad yw'r newid yn tanseilio gweithrediad y drefn ar ei ffurf bresennol
- Byddwn y ffafrio trefn gwyno fwy hyblyg, fyddai'n caniatáu ymateb cyflym, neu ymchwiliad trwyadl, pan fo'n addas. Teimlwn yn ogystal bod y ddirwy o £5,000 am ddiffyg cydymffurfiaeth yn chwerthinllyd o isel.
- Croesawn yn gynnes y dyletswyddau cynllunio ieithyddol, a chredwn fod dyletswyddau o'r math yn hanfodol er mwyn newid diwylliant. I sicrhau eu heffeithlonrwydd, bydd angen eglurhad manwl o'u grym cyfreithiol dros y misoedd i ddod. Byddwn hefyd yn pwysu am ddyletswydd ychwanegol i alw

am greu tirwedd sy'n ffafrio'r Gymraeg; byddai hyn yn sicrhau'r hanfod o bresenoldeb amlwg a chymunedol i'r iaith

Yn Gywir lawn,